Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cwmbrân**

**Y Pwerdy**
**Heol Blenheim Sain Derfel**
**Cwmbrân**
**NP44 4SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/10/2023

# Cylch Meithrin Cwmbrân

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cwmbrân |
| Lleoedd cofrestredig | 13 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Ebrill 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Crynodeb

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried pob thema yn llawn.

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu. Rhoddir digonedd o gyfleoedd iddynt ddatblygu ac arwain eu chwarae yn annibynnol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth wedi gwella. Mae'r darparwr wedi gweithio i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Cafodd dau Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ac un Maes i'w Wella a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf eu cau.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn mwynhau'r amser y maent yn ei dreulio yn y lleoliad. Maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff ac â'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae yn y tywod ac yn rhannu adnoddau â'i gilydd. Caiff y plant eu dathlu yn y lleoliad. Caiff eu gwaith celf ac eitemau a grëwyd ganddynt eu harddangos ym mhob rhan o'r feithrinfa, yn ogystal â lluniau ohonynt yn chwarae. Mae hyn y rhoi ymdeimlad o falchder, perchnogaeth a pherthyn i'r plant.

Caiff annibyniaeth a dewisiadau'r plant eu hannog yn gyson. Fe'u clywsom yn datgan pa gân yr hoffent ei chanu yn ystod amser cylch. Gall y plant gael gafael ar yr adnoddau a'r teganau yn hawdd o ganlyniad i'r dodrefn lefel isel sy'n annog eu hannibyniaeth ym mhob rhan o'r lleoliad.  Maent hefyd yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad ac yn gwenu'n llawn cyffro wrth ymgymryd â thasgau eu hunain. Er enghraifft, llwyddodd un plentyn i  gyfrif i dri yn Gymraeg ar ei ben ei hun, gan ddatgan yn llawn cyffro *“I do it myself”.*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad wedi gwella. Cyhoeddwyd Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad blaenorol mewn perthynas ag addasrwydd y gweithwyr a threfniadau cyflogi'r staff. Cyhoeddwyd Maes i'w Wella hefyd mewn perthynas â darparu gwybodaeth.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau o ran addasrwydd y gweithwyr. Roedd ffeiliau pob aelod o'r staff a archwiliwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth reoleiddiol. Rydym wedi cael sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Chyfrifoldeb y bydd ffeiliau staff yn cael eu creu cyn i aelodau o staff ddechrau gweithio, lle y bo'n bosibl.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau o ran trefniadau cyflogi'r staff. Mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys y Person â Chyfrifoldeb, wedi cael cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu. Dywedodd y Person â Chyfrifoldeb wrthym fod dyddiadau wedi'u neilltuo ar gyfer y cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu nesaf, er mwyn sicrhau y cânt eu cynnal fel y'u cynlluniwyd.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau mewn perthynas â darparu gwybodaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn diweddaru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rheolaidd am newidiadau i'r staff a digwyddiadau o bwys drwy ei gyfrif AGC ar-lein.

Cafodd Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a Maes i'w Wella a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol mewn perthynas ag addasrwydd y gweithwyr, trefniadau cyflogi'r staff a darparu gwybodaeth eu cau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol sy'n eu galluogi i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. | Cyflawnwyd |
| 28 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn wedi'i chynnwys yn ffeiliau'r staff a'i bod ar gael mewn perthynas ag addasrwydd y staff. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 31 | Mae'r Person Cofrestredig wedi methu â hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys mewn modd amserol. Mae hyn yn ymwneud â newidiadau staff yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y rhieni a'r staff yn llofnodi ac yn dyddio pob ffurflen, gan gynnwys ffurflenni damweiniau, ffurflenni digwyddiadau a ffurflenni cofrestru'r plant. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y gwaith cynllunio a'r gwerthusiadau wedi'u cwblhau ac y ceir cymorth gan yr awdurdodau perthnasol. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod yr arsylwadau yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf o ran dysgu'r plant ac y caiff yr arsylwadau eu dyddio'n gyson. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
| --- |
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu harchwilio i nodi tueddiadau a pheryglon posibl yn y lleoliad. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/12/2023